



# CAPEL SALEM, DOLGELLAU

## TAFLEN MIS TACHWEDD 2020

Rhifyn 221

Annwyl ffrindiau,

Ym mis Ebrill eleni, fi oedd y swyddog cyntaf o Salem i'ch cyfarch drwy gyfrwng y daflen fisol yng nghyfnod y "clo mawr". A hithau bellach yn fis Tachwedd, mae'r wlad unwaith eto dan glo a'r frwydr yn erbyn COFID-19 yn parhau. Bu'n rhaid cloi drysau'r capel am yr eildro, ond er mawr ryddhad i ni i gyd, dim ond am gyfnod byr y tro hwn. Ers mis Medi, rydym wedi llwyddo i gynnal sawl gwasanaeth yn Salem, a hynny mewn dull diogel ac ystyriol o'r amgylchiadau. Cafwyd dau wasanaeth ym mis Hydref, dan ofal y Parchedig Patrick Slattery a'r Parchedig Megan Williams, y ddau ohonynt yn gyfeillion ffyddlon iawn i'r capel.

Pwy a wŷr beth fydd y sefyllfa dros weddill y gaeaf? Mae'n amhosib i unrhyw un ragweld. Mae nifer o'r pregethwyr sydd yn ymwelwyr cyson â phulpudd Salem yn oedrannus neu/ac yn fregus, ac felly ddim mewn sefyllfa i deithio atom a hyn heb unrhyw gyfyngiadau teithio lleol allai fod yn bodoli, wrth gwrs. Ond gallaf eich sicrhau y byddwn yn ceisio darparu gwasanaeth ar eich cyfer bob cyfle posib. Efallai na fydd y gwasanaethau yn dilyn y drefn arferol - bydd rhaid i ni gyd fod yn barod i dderbyn newidiadau. Mae'r ysgrifennydd, Dwryd Williams, yn weithgar iawn ac yn edrych i mewn i bob math o ffyrdd y gallwn gyd-addoli mor gyson ag y bydd yr amgylchiadau yn caniatáu. Erbyn hyn, mae'r tymor Diolchgarwch wedi dod i ben. Fel y soniodd y Parchedig Patrick Slattery yn ei fyfyrdd am y Diolchgarwch, oedd ynghlwm â thaflen mis Hydref, mae'r rhan fwyaf ohonom yn cofio gwasanaethau Dydd Llun Diolchgarwch, a phan yn blentyn, byddai paratoi brwd ar gyfer gwasanaeth y plant yn y prynhawn. Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch yn yr ysgol hefyd wrth gwrs, ac am fod Ysgol Syr Huw Owen yng Nghaernarfon (Caernarfon Grammar School yn ein hoes ni!) yn arfer cynnal gwasanaethau boreol Cymraeg a Saesneg ar yn ail, mae emynau megis "We plough the fields and scatter" ac "All people that on earth do dwell" wedi aros yn y cof.

Eleni eto, er gwaethaf popeth, mae gennym le i ddiolch ac mae'n bwysig ein bod yn cofio gwneud bob dydd. Nid gair ar gyfer y cyfnod hwn yn unig yw "Diolch". Digon hawdd yw meddwl bod y gwydr yn hanner gwag, yn hytrach nag yn hanner llawn. Weithiau mae'n anodd canolbwyntio ar y positif wrth glywed am holl drafferthion ein byd, ond cyfrwn ein bendithion un ac oll, fel yn Emyn 142, cyfieithiad T.G.Thomas o emyn Johnson Oatman - dyma rai dyfyniadau ohono:

- "Cyfrif y bendithion, bob yn un ac un, synnu wnei at gymaint a wnaeth Duw i ddyn."
- "Cyfrif y bendithion a rydd nerth i'r daith; yn lle cwyno, canu mwyach fydd dy waith."
- "Cyfrif y bendithion, maent uwch gwerth y byd, eiddot Iesu'n ffrind, a'r nef yn gartref clyd."
- "Felly yn y rhyfel, er mor danllyd yw, paid â digalonni - drosot mae dy Dduw;
- Cyfrif y bendithion, mae ei engyl ef yn dy wyllo nes it gyrraedd fry i'r nef."

Llongyfarchiadau i Terry ac Eira Lloyd, Pîl yr Hengwrt, Llanelltyd ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Ymlaen at y Diemwnt!

Cofiwch fod y system gefnogi (Cymorth Corona Ardal Dolgellau a Dinas Mawddwy) yn dal ar gael i negesa ar eich rhan os byddwch yn hunan ynysu, neu hyd yn oed i sgwrsio ar y ffôn os byddwch yn teimlo'n unig. Os cysylltwch gyda Dwryd neu minnau, medrwn sicrhau bod eich cais yn cael sylw.

Anfonwn ein cofion anwylaf at y rhai sy'n gaeth i'w cartref neu gartrefi gofal. Rydym yn meddwl yn arbennig am Mrs Mair C. Jones, sydd yn cael trafferth go arw hefo'i golwg, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Rydym yn meddwl amdanoch, Mair, ac yn edrych ymlaen at y diwrnod pan gawn ymweld â chi a'n ffrindiau eraill yng Nghefn Rodyn unwaith yn rhagor. Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Cemlyn Roberts, Dinbych, sydd yn dal i ddioddef o effeithiau'r Covid-19.

Yn gywir,

*John Cadwaladr* (Ar ran y swyddogion)

### OEDFAON MIS TACHWEDD 2020

**Tachwedd 1af** - Dim oedfa - Cyfnod Clo

**Tachwedd 8fed** - Dim oedfa - Cyfnod Clo

**Tachwedd 15fed** - 10.00 y bore - Oedfa dan ofal y swyddogion gyda phregeth rithiol gan y Parchedig Catrin Roberts

**Tachwedd 22ain** - 10.00 y bore - Y Parchedig Marcus Robinson, Bethel

**Tachwedd 29ain** - 10.00 y bore - Dim oedfa

## MYFYRDOD AR Y GAEAF gan y Parchedig Patrick Slattery

Unwaith eto rydym wedi troi ein clociau yn ôl ac rydym yn nhymor y gaeaf. Nid pawb sy'n hoff o droi'r cloc yn ôl, yn arbennig yr hen a'r unig a'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ. Gall y gaeaf fod yn anodd a hir iddynt. Gyda dyfodiad tymor y gaeaf rhaid i bawb newid patrwm bywyd. Cadwn ein dillad haf a gwisgwn ddillad cynhesach. Ni allwn fwynhau'r ardd ar noson dywyll oer. Mae angen i ni gadw ein cartrefi yn gynnes. Cyn dyddiau gwres canolog, symudai rhai pobl i ystafell gynhesaf y tŷ am y gaeaf. Darllenwn adnod yn Llyfr Jeremeia am y brenin Jehoiacim yn gwneud hyn. "..... roedd y brenin yn eistedd yn y gaeafdy lle roedd y tân yn llosgi". (Jeremeia 36:22).

Rydym yn ffodus ein bod yn gallu cadw ein cartrefi yn gynnes a gwisgo dillad cynnes i fynd allan yn nhywydd oer yn y gaeaf. Mae hyn yn fy atgoffa o bregethwr a fyddai bob amser yn diolch i Dduw yn ei weddi trwy ddweud; "Diolch am dŷ, a thân a tho dros ein pennau".

Rydym wedi cael cyfle i baratoi ar gyfer y gaeaf. Fodd bynnag, bydd yn aeaf hollol wahanol i unrhyw un arall yr ydym wedi'i brofi. Oherwydd cyfyngiadau Cofid-19, ni fydd cyfarfodydd nos wythnosol. Dim ymarferion côr, dim cyfarfodydd cymdeithasol, dim astudiaethau Beibl na seiadau. Byddwn yn treulio'r mwyafrif o nosweithiau yng nghynhesrwydd ein cartrefi. Felly diolch am ein cartrefi clyd. Rydym yn ddiolchgar nad ydym yn gwybod sut fydd y tywydd. Ond rydyn ni'n paratoi ar gyfer y gwaethaf, wedi'r cyfan mae'n aeaf. Beth bynnag fydd y tywydd, mae pethau gwaeth yn y byd na stormydd y gaeaf.

Wrth wynebu gaeaf o ansicrwydd mae angen sicrwydd a gobaith arnom. Mae angen i ni aros yn bositif a meithrin ein ffydd Gristnogol. Gall hyn fod yn anodd ar adeg pan mae'n rhaid i eglwysi gau ac na allwn fynd i wasanaeth ar y Sul. Ond os yw drysau'r capel ar gau mae'r eglwys yn dal ar agor. Mae rhai eglwysi wedi danganfod dulliau newydd i ateb yr her. Mae rhai eglwysi yn defnyddio'r rhyngwyd i gynnal gwasanaethau ar ddydd Sul. Mae hyn wedi apelio at lawer o bobl sydd byth yn mynychu capel neu eglwys. Dyma ffordd amserol i genhadu. Ond nid yw pawb ar y cyfryngau cymdeithasol ac nid oes gan bawb gyfrifiadur nac iPad. Mae rhai eglwysi yn gofalu am eu haelodau trwy gysylltu â nhw dros y ffôn. Mae eraill yn cadw mewn cysylltiad trwy anfon cylchlythyr misol, fel capel Salem. Mae yna lawer o ffyrdd eraill ac mae angen i ni arbrofi mwy i ddarganfod pa un yw'r ffordd orau i'n heglwys symud ymlaen. Mae hyn yn cadarnhau geiriau Solomon yn ei weddi i gysegru'r deml; "Mae Duw yn rhy fawr i'w gyfyngu i'r deml". (1 Bren.8:27). Dyna hefyd neges yr emyn; 'Mae Duw yn llond pob lle, presennol ym mhob man'. Mae Ioan yn cyfeirio at Iesu yn cerdded strydoedd Jerwsalem yn y gaeaf. (Ioan 10:22/23). Mae Iesu yn cerdded strydoedd y byd yn gyson. Gallwn ei weld ar waith ym mywydau pawb ledled y byd sy'n gwneud eu gorau glas i'n hamddiffyn rhag coronafirws. Rydyn ni'n diolch am eu hymrwymiad ac mae'n rhaid i ni eu cadw nhw yn ein meddyliau a'n gweddïau.

Ni fyddwn yn gweld diwedd ar y coronafirws y gaeaf hwn. Ond trwy fod yn ddoeth, gobeithiwn ei arafu a chadw ein hunain yn ddiogel rhagddo. Gadewch i ni gofio fod gobaith ym mhob argyfwng. Mae gennym rai o feddygon blaenllaw'r byd yn gweithio'n galed i ddarganfod brechlyn a fydd yn y pen draw yn ein hamddiffyn rhag coronafirws. Maent yn haeddu pob cefnogaeth posibl. Gadewch i ni gofio amdanynt yn ein gweddïau.

Gall fod yn aeaf hir ac anodd i lawer o bobl, ond gadewch i ni gyfrif ein bendithion a gwneud eu gorau glas i aros yn ddoeth ac yn ddiogel a helpu eraill. Mae Duw gyda ni a bydd ef yn rhoddi nerth i ni fyw un dydd ar y tro. 'Y mae Duw yng ngrwm y gaeaf'. Mae'n wir yn aeaf ond bydd y gwanwyn yn dychwelyd. Bydd heulwen ar y bryn unwaith eto.



## OEDFAON Y DYFODOL



Go brin y bydd modd mynd yn ôl i'r hen drefn o wasanaethau pan ddaw yr argyfwng Cofid-19 i ben. Bydd misoedd lawer wedi mynd heibio a'r nifer o weinidogion fydd ar gael i'n gwasanaethu wedi prinhau fwy fyth. Rydym yn rhagweld y bydd yn rhaid mynd ati i rannu adnoddau mewn ffyrdd dychmygus, gan wneud y defnydd gorau o'r gweinidogion fydd ar gael. Y mae'r Parchedigion Catrin Roberts, Ifan Roberts, Elwyn Richards, Christopher Prew, Gwyn Rhydderch ac Andrew Settatree wedi cael eu ffilmio yn cyflwyno pregethau ar amrywiol destunau. Mae'r ffilmiau hyn ar gael ac yn para tua pymtheg i ugain munud. **Bore dydd Sul, Tachwedd y 15fed byddwn yn arbrofi trwy wylïo un o'r ffilmiau hyn ar y sgrîn fawr.** Y Parchedig Catrin Roberts (Williams gynt) Radur, Caerdydd, ond o Ddolgellau yn wreiddiol, fydd yn pregethu. Rwyf wedi bod yn y capel yn profi'r system ac mae i'w weld yn gweithio'n dda iawn, y llun ar y sgrîn a'r sain yn eglur. Er mwyn i bawb allu gweld y sgrîn fawr yn iawn byddai o gymorth pa bai rhai ohonoch yn fodlon mynd i'r Galeri, i'r "box seats", sef y seddau gorau! Mae seddau addas yn y Galeri eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer hynny.

